# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 07-06

### Dyddiad y cyfarfod: 6 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 1.30pm – 4.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Catherine Thomas | Llanelli |

#### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Geraint Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |
| Ian Gibson | Dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth |

#### Tystion

| | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Peter Ryland | Prif Gyfrifydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Dr Christine Daws | Cyfarwyddiaeth Adnoddau yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| John Hill-Tout | Cyd-gyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithrediadau, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Irene James ac roedd Christine Gwyther yn dirprwyo ar ei rhan. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Alun Cairns a Carl Sergeant.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## Eitem 2: Archwiliad ariannol o lywodraeth ganolog a chyrff y GIG yng Nghymru: 2006 Papur: AC(2) 07-06(p1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Peter Ryland, Prif Gyfrifydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Pwyntiau Gweithredu

Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ddarparu:

- nodyn ynghylch argymhellion yr adran archwilio mewnol ar gyfer monitro a rheoli gwariant grantiau a'i gweithdrefnau ariannol ysgrifenedig.
- nodyn ynghylch ffigwr 5 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n egluro'r gymhariaeth rhwng y 96% o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddiant Gwerth Cymru a'r 62 o'r 65 sydd wedi cymryd rhan yn y wefan caffael cenedlaethol, Buy4Wales.
- nodyn ynghylch y gwersi allweddol o'r broses o gau Rhaglenni'r UE 1994-99.
- nodyn ynghylch a oes gan y Cynulliad y pwerau i wneud yr hyfforddiant ar gaffael a roddir i noddwyr a rheolwyr Prosiectau'r UE yn orfodol, fel amod wrth ddyfarnu'r taliad grant.
- Ystadegau ar le a pha mor hir y mae estyniadau i'r terfyn amser o 20 niwrnod i ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi eu gwneud am geisiadau.
- ffigurau dangosol o'r ganran o geisiadau a wnaed ynghylch Rhyddid Gwybodaeth gan y cyfryngau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Eitem 3: Amseroedd aros y GIG: adroddiad dilynol**
**Papur: AC(2) 07-06(p2)**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a John Hill-Tout, Cyd-gyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithrediadau, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Pwynt Gweithredu**

Cytunodd John Hill-Tout i ddarparu nodyn yn egluro lefelau llawfeddygaeth arbenigol yn Abertawe a'r effaith ar amseroedd aros am driniaeth fel claf preswyl/claf allanol.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**
**Papur: AC(2) 07-06(p3), AC(2) 07-06(p4)**

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar 'Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru' ac yn trafod cyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y pwyllgor yn fodlon.

**Eitem 5: Adroddiad diweddaru ar gaffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**
**Papur: AC(2) 07-06(p5), AC(2) 07-06(p6)**

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar y cynnydd o ran gweithredu ei argymhellion ar gaffael yn y sector Addysgu Uwch gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bu'n trafod cyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y Pwyllgor yn fodlon.

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol 2005-06 y Pwyllgor Archwilio i'r Cyfarfod Llawn**
**Papur: AC(2) 07-06(p7)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol drafft 2005-06 y Pwyllgor.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 06-06(mins)**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2006.

7.2 Tynnodd Leighton Andrews yn ôl o'r cyfarfod.

Penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi)

Sesiwn Breifat

**Eitem 8: Adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio Contract Merlin – Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh**
**Papur: AC(2) 07-06(p8)**

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2006**